**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion Cyfarfod Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2017 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub yn Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 10 o'r gloch y bore.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| P R Lewis | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

HEFYD YN BRESENNOL:

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); K Finch (Trysorydd); D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); G Owens (Dirprwy Glerc); R Simmons ac R Fairhead (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Rheolwr Cynllunio Corfforaethol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU

| | |
|---|---|
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| E W Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P Pemberton | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |

Gan mai dyma gyfarfod olaf Dawn Docx gyda'r Awdurdod, manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i ddymuno'n dda iddi yn ei swydd newydd gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Manceinion Fwyaf.

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim

2 RHYBUDD O FATERION BRYS

2.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau fod y PST wedi gofyn am gael annerch yr aelodau ynglŷn â'r cynigiad cyflog i'r diffoddwyr tân.

3 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17 GORFFENNAF 2017

3.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod diwethaf eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

3.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

4 MATERION YN CODI

4.1 11 Cynigiad cyflog i'r diffoddwyr tân – rhoddodd y PST wybod i'r aelodau fod y sefyllfa yr un fath ag ar ddyddiad cyfarfod diwethaf yr ATA, ac nad yw Undeb yr FBU wedi ymateb eto i'r 1% o gynigiad cyflog. Atgoffwyd yr aelodau fod y cynllun treialu gofal meddygol brys/cyd-ymateb wedi dod i ben ar 18 Medi 2017 o ganlyniad i'r trafodaethau ynghylch cyflog. Nodwyd mai £100k yw 1% o ddyfarniad cyflog fel arian parod, a bydd y swm yn aros yng nghyllideb yr Awdurdod.

5 YR OPSIYNAU O RAN CYLLIDEB 2018-19

5.1 Cyflwynodd y DBST yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu cyllideb refeniw ddrafft yr ATA ar gyfer 2018-19.

5.2 Cyfeiriodd y DBST at y dyfarniad cyflog ar gyfer diffoddwyr tân, ac ar ôl trafod y mater gyda'r Trysorydd roeddent yn ystyried mai'r ffordd fwyaf darbodus o ddelio â'r mater fyddai rhoi'r arian o 2017-18 ymlaen mewn darpariaeth er mwyn cael arian i gyllido'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2017, unwaith y bydd cytundeb cenedlaethol wedi digwydd.

5.3 Nodwyd bod y dyfarniad cyflog yn un o'r llawer o ffactorau anhysbys ynglŷn â chyllideb y flwyddyn nesaf; roedd rhai eraill yn lefelau uwch o bosibl o weithgarwch a'r posibilrwydd o ostwng neu ddileu grantiau uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru – a fyddai'n golygu y byddai prosiectau sy'n cael arian grant, fel y Ffenics a'r Tîm Lleihau Llosgi Bwriadol, yn dod i ben.

5.4 Dywedodd y Trysorydd ei fod wedi trafod y setliad llywodraeth leol gyda Phrif Swyddogion Ariannol y chwe awdurdod lleol, a bod pob un wedi gweld yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel Gweithredol; trafodwyd hefyd gyfraniadau'r awdurdodau lleol ac roedd y Trysorydd wedi awgrymu y bydd yr Awdurdod yn ystyried pa mor bosibl yw bod y cyfraniadau'n aros yr un fath ar gyfer 2018-19.

5.5 Atgoffwyd yr aelodau y bydd heriau ariannol mwy o faint yn wynebu'r Awdurdod yn 2019-2020 o ganlyniad i ailbrisio pensiynau a'r trefniadau trosiannol i'r system gysylltiadau genedlaethol newydd. Gan fod maint y pwysau costau hyn yn anhysbys ar hyn o bryd, bydd rhaid mynd i'r afael â hynny yn ystod y broses o osod cyllideb 2019-2020.

5.6 Nodwyd bod y broses o osod y gyllideb yn cael ei chynnal gan Weithgor sy'n cynnwys aelodau'r Panel Gweithredol yn cwrdd yn breifat; bydd yr aelodau'n cael gwahanol opsiynau ac yn cael gwybodaeth fanwl ar gyfer eu gwaith yn gosod cyllideb ac yn llunio amcanion gwella. Yna, byddan nhw'n cyflwyno eu canfyddiadau i'r Panel Gweithredol ac wedyn i'r ATA yn llawn.

5.7 Roedd y Cyng. Lewis yn cefnogi pryderon y Trysorydd am yr anhawster o sicrhau cyfraniad yr un fath ar gyfer 2018-19. Hefyd, gofynnodd y Cyng. Lewis i'r holl aelodau gytuno y dylai fod yn brif amcan y gweithgor yn y Flwyddyn Newydd i edrych ar ganfod gostyngiadau gwerth £1 miliwn i'r gwasanaethau ar gyfer 2019-2020, rhag ofn y bydd y pwysau costau yn 2019-20 yn £1 miliwn.

5.8 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r rhagdybiaethau y seiliwyd y gyllideb refeniw ddrafft arnynt ar gyfer 2018-19;**

**(ii) cadarnhau eu bod yn dymuno argymell i'r Awdurdod bod cyllideb 2018-19 yn cael ei llunio ar sail y lefel bresennol o wasanaethau;**

**(iii) argymell i gyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr 2017 eu bod, yn unol â'r strategaeth ariannol dair blynedd, yn cymeradwyo cynnydd yng nghyfraniadau'r cynghorau cyfansoddol ar gyfer 2018-19 a/neu'n cymeradwyo defnyddio cronfeydd wrth gefn i danategu'r gyllideb am un flwyddyn arall;**

**(iv) cytuno i osod yr egwyddor y dylai'r Gweithgor ganfod opsiynau i arbed £1miliwn drwy leihau gwasanaethau ar gyfer 2019-20.**

6 YMATEB I YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS YR AWDURDOD YN 2017

6.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o brif themâu'r ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriad cyhoeddus yr Awdurdod yn 2017 ynglŷn â'r camau y dylid eu cymryd er mwyn cyflawni ei amcanion gwella a llesiant.

6.2 Daeth wyth ar hugain o ymatebion i law, ac roedd themâu'r ymatebion yn ymwneud â'r canlynol:

- gwasanaethau craidd a rheng flaen, ac ymateb i ddigwyddiadau mawr;
- diogelwch cymunedol (tanau damweiniol mewn cartrefi); ac
- ariannu gwasanaethau tân ac achub yn yr ardal.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi prif themâu'r ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng Mai a Gorffennaf 2017.**

7 RHEOLI RISGIAU STRATEGOL

7.1 Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o gynnwys cofrestr risgiau strategol yr Awdurdod yn unol â'r Polisi Rheoli Risgiau Strategol.

7.2 Mae cofrestr risgiau strategol yr Awdurdod yn rhestru risgiau hysbys a allai atal yr Awdurdod rhag cael y canlyniadau a gynlluniwyd a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd. Mae cofnodion ar y gofrestr yn cael sgoriau risgiau sy'n cael ei hail-werthuso'n rheolaidd gan y swyddogion er mwyn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol a'r effaith a ragwelir gan wrth-fesurau arfaethedig. Nodwyd bod y gofrestr risgiau'n cael ei diweddaru ddwywaith y flwyddyn gyda mewnbwn gan benaethiaid adrannau, ac mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn cael gweld y gofrestr o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

7.3 Yn y cyfarfod, cyflwynwyd crynodeb o'r cofnodion diweddaraf yn y gofrestr, a nodwyd bod gwrth-fesurau'n cael eu sefydlu i liniaru'r risgiau cymaint ag y bo modd.

7.4 **PENDERFYNWYD nodi'r risgiau strategol hysbys sy'n wynebu'r Awdurdod.**

8 Y DDARPARIAETH ISAFSWM REFENIW

8.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r sail ar gyfer adolygu'r modd y cyfrifir y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol, ac adolygu'r polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2018/19. Mae'r polisi'n nodi'r dull i'w ddefnyddio i roi swm darbodus ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu dyled.

8.2 Mae'r posibilrwydd o adolygu'r sail ar gyfer cyfrifo'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw wedi cael ei grybwyll yn gynharach yn y flwyddyn ariannol hon pan fu'r Aelodau'n ystyried materion Rheoli'r Trysorlys. Dylid ei gymeradwyo yn y bôn. Amcangyfrifir mai'r arbediad ariannol ar 2017/18, a'r blynyddoedd wedyn, yw £360,000 y flwyddyn.

8.3 Roedd yr aelodau'n fodlon cefnogi'r cysyniad, gan nodi y bydd gwybodaeth fanwl a thechnegol wedi'i chynnwys yn yr adroddiad i'r Awdurdod cyn gwneud penderfyniad terfynol am y mater.

8.4 **PENDERFYNWYD argymell y canlynol i'r Awdurdod Tân ac Achub:**

(a) **bod adolygu'r sail ar gyfer cyfrifo'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2017/18 a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2018/19 yn cael ei ystyried ar gyfer ei gymeradwyo;**

(b) **bod y Trysorydd yn trafod y newidiadau arfaethedig gyda Swyddfa Archwilio Cymru, a bod eu barn yn cael ei adrodd i'r Awdurdod.**